## CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafodd ADC Infrastructure Ltd ei gomisiynu gan Anglesey Land Holdings Ltd i ddarparu cyngor ymgynghoriaeth trafnidiaeth a phriffyrdd i gefnogi cais cynllunio amlinellol ar gyfer ailddatblygu Parc Ffyniant ar Ynys Gybi, Ynys Môn. Mae Parc Ffyniant yn safle tir llwyd, a adwaenid yn flaenorol fel Gwaith Penrhos, ac sy'n cynnwys cyn safle gwaith Alwminiwm Môn. Mae hefyd yn ffurfio rhan o Barth Ffyniant Ynys Môn (APZ) o fewn Porthladd Rhydd Ynys Môn.

Mae'r cais cynllunio amlinellol ailddatblygiad Parc Ffyniant ar gyfer 'Parc Canolfan Ddata a Thechnoleg' sy'n gynnwys y canlynol:

- hyd at 10,000 metr sgwâr o ofod swyddfa B1
- hyd at 5,000 metr sgwâr o ofod ymchwil a datblygu B1
- lleiafswm o 223,000 metr sgwâr defnydd Canolfan Ddata B8 (gyda'r defnydd Canolfan Ddata yn unig, a dim defnydd storio a dosbarthu arferol B8)
- system storio ynni batri (BESS), gyda chapasiti o hyd at 349MW.

Mae'r cais cynllunio amlinellol yn chwilio am gyfanswm o ardal llawr gros arfaethedig (GHA) o hyd at 238,000 metr sgwâr. Mae'r Asesiad Trafnidiaeth yn awgrymu y gallai'r datblygiad gyflogi 1,628 o weithwyr.

Mae'r polisi cynllunio yn datgan bod yn rhaid i gynigion datblygiad geisio gwneud y gorau o hygyrchedd drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, drwy flaenoriaethu seilwaith priodol ar y safle, ac y dylai'r gwasanaethau a'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus fod yn eu lle o'r cychwyn cyntaf.

Yn ogystal ag unrhyw seilwaith 'caled' ar y safle, mae'n angenrheidiol hyrwyddo teithio iach drwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy drwy fesurau fwy meddal. Gan hynny, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Fframwaith Cynllun Teithio ar gyfer safle Parc Ffyniant a ailddatblygir. Mae wedi ei gynhyrchu fel rhan o'r cais cynllunio amlinellol ac ochr yn ochr gyda'r Asesiad Trafnidiaeth.

Fel arfer caiff Cynllun Teithio ei ddiffinio fel strategaeth rheoli hirdymor a chynllun gweithredu penodol ar gyfer hwyluso ac annog teithio drwy ffyrdd cynaliadwy (cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a rhannu ceir), ac integreiddio i'r broses gynllunio. Mae Cynllun Teithio, felly, yn ddogfen fyw sy'n gosod allan ffyrdd y gall sefydliadau leihau'r nifer o deithiau a wneir gan gerbydau i'w safle drwy hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Mae'n benodol i'r safle ac yn cymryd i ystyriaeth yr anghenion a'r diddordebau unigryw sydd gan weithwyr, ymwelwyr a danfoniadau yng nghyd-destun yr amgylchedd lleol a'r rhwydwaith trafnidiaeth.

Mae Cynlluniau Teithio yn seiliedig ar gynhyrchu rhagolwg teithio datblygiad, a gosod targedau a deilliannau, sydd yn gysylltiedig gyda phecyn priodol o fesurau, sydd wedi'u hanelu at leihau'r angen i deithio, gan annog teithio mwy cynaliadwy a lleihau teithiau car gydag un person yn teithio ynddo, a hynny ar gyfer pob taith i'r datblygiad ac oddi yno. Mae'r broses Cynllun Teithio hefyd yn cynnwys monitro, adolygu a mireinio parhaus dros amser, gan fod data arolwg teithio yn cael ei gasglu er mwyn penderfynu beth yw'r tueddiadau o fewn patrymau teithio.

Mae'r Fframwaith Cynllun Teithio hwn yn cynnwys yr uchod, ac wedi cael ei baratoi er mwyn mynd i'r afael â theithio a wneir gan staff, ymwelwyr a danfoniadau. Mae'n gosod allan sut fydd deiliaid yr unedau unigol yn cynhyrchu eu Cynlluniau Teithio eu hunain, fydd yn cyfrannu tuag at nodau a thargedau cyffredinol y Fframwaith Cynllun Teithio hwn.

Amcan cyffredinol y Fframwaith Cynllun Teithio hwn, a'r Cynlluniau Teithio llawn, dilynol, yw lleihau nifer y teithiau gan gerbydau a wneir i'r safle ac oddi yno.

Rhagwelir y bydd y datblygiad arfaethedig yn creu hyd at 4,456 o symudiadau traffig cerbydau ysgafn dwy ffordd yn ddyddiol. Yn ogystal, bydd yn cynhyrchu 279 o deithiau cerddwyr, 111 o deithiau beic a 223 o deithiau trafnidiaeth gyhoeddus yn ddyddiol.

Cynigir y targedau canlynol:

- Targed Un - bydd 100% o ymwybyddiaeth o'r Cynllun Teithio ymysg gweithwyr yn y datblygiad. Bydd pob gweithiwr yn dod yn ymwybodol o'r Cynllun Teithio, gan gynnwys nod, targedau a mesurau sydd ar gael iddynt, a sut i gysylltu gyda'r Cydlynydd Cynllun Teithio. Bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni o fewn un mis i ddeiliadaeth pob uned a bydd yn cael ei fonitro drwy arolygon teithio gweithwyr.
- Targed Dau - bydd y Cynllun Teithio yn amcanu i gwrdd â tharged o 10% yn llai o gyfran y gweithwyr sy'n teithio fel gyrrwr cerbyd, o fewn pum mlynedd i ddeiliadaeth gyntaf y datblygiad. Bydd hwn yn cael ei fonitro drwy arolygon teithio gweithwyr.
- Targed Tri - bydd y lleihad o 10% o yrwyr cerbydau yn cyd-fynd gyda chynnydd yn y gyfran o weithwyr sy'n cerdded, beicio, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu'n rhannu car.
- Targed Pedwar - bydd deiliaid yn annog gweithwyr i weithio o bell yn rheolaidd, os yw eu rôl yn caniatáu hynny.

Bydd y targedau hyn yn cael eu cadw yn y Cynlluniau Teithio llawen a baratoir ar gyfer pob uned, oni bai y cytunir fel arall gyda Chyngor Sir Ynys Môn fel yr awdurdod priffyrdd lleol.

Cynigir amrywiol fesurau a symbyliadau er mwyn cyflawni'r targedau hyn, gan gynnwys: penodi Cydlynydd Cynllun Teithio ar gyfer y safle cyfan a Rheolwyr Cynllun Teithio unigol er mwyn rhoi'r broses Cynllun Teithio ar waith a'i monitro; darparu gwybodaeth ynghylch teithio drwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol a byrddau hysbysu; a hyrwyddo cerdded, beicio, teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, a rhannu car. Lle mae'n bosib, bydd gweithio o bell hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn lleihau teithio, a lle mae angen teithiau car, hyrwyddir defnyddio cerbydau gydag allyriadau eithriadol o isel.

Cynigir defnyddio trefniant monitro, gan ddefnyddio arolygon teithio staff, a chasglu data meintiol er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Cynllun Teithio yn cyflawni'r amcanion a'r targedau, a bod y Cynlluniau Teithio unigol yn cael eu paratoi a'u rhoi ar waith.